

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Craffu Partneriaethau

Dyddiad: 14 Mai 2021

Rhif Union: 01824 712554

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 20 MAI 2021** am **10.00 am** yn **TRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

### **2 PENODI IS-GADEIRYDD** (Tudalennau 5 - 6)

Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2021/2022 (gweler ynghlwm gopi o ddisgrifiad swydd ar gyfer Aelod Craffu a Chadeirydd / Isgadeirydd).

10.00 – 10.10 a.m.

### **3 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 7 - 8)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

10.10 – 10.15 a.m.

**4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 12)

Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2021 (copi ynghlwm).

10.15 – 10.25 a.m.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU 2020/21** (Tudalennau 13 - 66)

Ystyried Adroddiad Chwarter4/Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar ei waith a'i gynnydd yn ystod 2020-21. (Adroddiad i ddilyn)

10.25 – 11.10 a.m.

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 67 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

11.10 – 11.25 a.m.

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

11.25 – 11.30 a.m.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Joan Butterfield  
Ann Davies  
Gareth Davies  
Hugh Irving  
Pat Jones

Christine Marston  
Melvyn Mile  
Rhys Thomas  
David Williams  
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

- (vi) Rôl: **Aelod Pwyllgor Archwilio/Cadeirydd**  
 Cyflog: **Band 3 (Cadeirydd yn unig)**

*Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i rôl y Cadeirydd*

## 1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

## 2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrf allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

## 3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
  - Balchder
  - Hygrededd
  - Parch
  - Undod
  - Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
  - Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
  - Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.

- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn TRWY CYFRWNG FIDEO., Dydd Iau, 15 Ebrill 2021 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Hugh Irving, Pat Jones, Melvyn Mile, Rhys Thomas ac Emrys Wynne (Is-gadeirydd)

Roedd y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Yn arsylwi – y Cyngorydd Meirick Lloyd Davies.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS), Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Rheolwr Tîm – Cymorth Busnes (BC), Cydlynnydd Craffu (RE), Gweinyddwr Pwyllgorau (Trefnydd-KJ), Gweinyddwr Pwyllgorau (Cymorth i'r Trefnydd - SJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (RTJ).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Joan Butterfield, Ann Davies, Gareth Davies a Christine Marston.

#### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

#### 3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

#### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 eu cyflwyno.

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

**Penderfynwyd: - cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 fel cofnod cywir o'r trafodion.**

Holodd yr Aelodau a fyddai'n bosib ailgychwyn y sesiynau briffio rhag-gyfarfod i baratoi ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor, fel oedd yr arfer cyn i'r pandemig arwain at gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor dros y we. Eglurodd y Cydlynnydd Craffu pam nad oedd y rhag-gyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, ond cynigiodd geisio

trafodaeth gyda'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu am y dulliau posib o ailgychwyn yr arfer hwn.

## **5 DATGANIAD SEFYLLFA MARCHNAD GWASANAETHAU CEFNOGAETH CYMUNEDOL 2021-24**

Bu i'r Cynghorydd Bobby Feeley – Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, gyflwyno adroddiad Datganiad Sefyllfa'r Farchnad (DSF) y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol 2021-24 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Roedd y DSF yn nodi cynnig y Gwasanaeth i'r farchnad, ac yn crynhoi'r anghenion a'r blaenoriaethau presennol. Byddai'n helpu darparwyr presennol/posibl (gan gynnwys y sector annibynnol, y trydydd sector, mentrau nid-er-elw a mentrau cymdeithasol) i ddatblygu a llunio'r gwasanaethau cymorth a gofal y maent yn eu cynnig i oedolion yn Sir Ddinbych.

Cafodd y DSF diwethaf ei gwblhau yn 2017, ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud o ran anghenion a gofynion ers cytuno ar y datganiad hwnnw. Atodwyd y datganiad newydd arfaethedig yn Atodiad 1 yr adroddiad. Mae'r DSF newydd ar gyfer 2021-24 wedi cael ei ddiweddarau'n llwyr i adlewyrchu tystiolaeth newydd o anghenion a gofynion, blaenoriaethau a chyfeiriadau teithio newydd, ac mae'n cynnwys crynodeb o fanylion cynlluniau penodol ar gyfer datblygiadau newydd, lle'r oedd y rheiny eisoes yn hysbys. Mae hefyd yn cynnwys pennod fer ar effeithiau argyfwng Covid-19 o ran sut y mae'n rhaid i'r Gwasanaeth ymateb a llunio'r ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu ei ofal cymdeithasol.

Parhaodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i fod yn sail strategol i gomisiynu cynlluniau a gweithgarwch datblygu yn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. O ganlyniad, mae'r DSF yn canolbwyntio'n amlwg ar ymyrraeth gynharach, cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned, helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a sicrhau bod gan ddinasyddion lais, dewis a rheolaeth o ran eu gofal a'u cymorth eu hunain.

Mae'r DSF hefyd yn egluro awydd y Gwasanaeth i weithio gyda darparwyr a fyddai'n cynnig y gwerth gorau drwy gyflawni canlyniadau blaenoriaethol a chydweithio'n greadigol. Rhaid i bob gwasanaeth a gomisiynir osgoi ailadrodd gwaith, a lleihau'r galw ar wasanaethau statudol.

Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y Pwyllgor bod gofyn statudol ar y Gwasanaeth i gynhyrchu DSF.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth –

- Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr heriau a gododd mewn perthynas â darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r anawsterau a wynebwyd wrth geisio recriwtio digon o staff i ddarparu gwasanaethau gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd pryderon bod rhai pobl wedi cael eu symud o'u cymunedau lleol i dderbyn gofal ac, oherwydd lleoliad mathau penodol o ddarpariaeth gofal, nid oedd digon o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar adegau. Cytunodd y Swyddogion fod yna heriau o fewn y sector, gan gynnwys darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ond bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu cyrraedd. Roedd yr

angen i fodloni gofynion Cymraeg defnyddwyr y gwasanaeth fel rhan o ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth eisoes wedi'i wreiddio yn agwedd dendro'r broses gaffael.

- Wrth symud ymlaen, gobaith y Cyngor yw y bydd yn gallu defnyddio unigolion sydd wedi bod yn gweithio fel gwirfoddolwyr cyfeillio yn ystod argyfwng COVID-19 i helpu gydag anghenion Cymraeg trigolion.
- Mae anawsterau o ran recriwtio staff y sector gofal yn broblem genedlaethol, ac nid yw'n unigryw i Sir Ddinbych.
- Canmolodd yr Aelodau yr amcanion a nodwyd yn y DSF oedd â'r nod o sicrhau bod pobl yn aros yn eu cartrefi eu hunain y hytrach nag yn mynd i ofal. Fodd bynnag, holwyd a oedd yna gymhellion neu gymorth ariannol ar gael i annog mwy o bobl i aros gartref. Eglurodd y swyddogion y defnyddiwyd cynllun taliadau uniongyrchol i helpu'r unigolion hynny oedd yn dewis aros gartref. Roedd y taliadau hyn yn galluogi'r unigolyn ei hun i ddewis a phrynu gwasanaethau gofal a chymorth oedd yn addas i'w hanghenion unigol.
- Holodd y Pwyllgor sut y gallai teuluoedd gael gafael ar wasanaethau gofal a chymorth yn y lle cyntaf mewn argyfwng, ac eglurodd y swyddogion y byddai angen iddynt gysylltu â'r Un Pwynt Mynediad (UPM). Ar ôl gwneud hynny, byddent yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau perthnasol a allai ddarparu cymorth.
- Gellid darparu gofal seibiant i drigolion a gofalwyr mewn amrywiaeth o leoliadau, nid o reidrwydd mewn lleoliad cartref gofal yn unig.

Bu i'r Pwyllgor:

**Benderfynu: yn amodol ar y sylwadau uchod, y byddai'n cadarnhau -**

- (i) ***bod Datganiad Sefyllfa'r Farchnad y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol 2021-24 yn adlewyrchu dealltwriaeth o'r farchnad leol a busnesau darparwyr lleol, a'i fod yn nodi'n glir sut y bydd yr amrediad o ofal a chymorth, yn awr ac yn y dyfodol, yn cael ei lunio a'i addasu i ymateb i faterion lleol penodol, ac yn helpu darparu blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a blaenoriaethau corfforaethol allweddol;***
- (ii) ***ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les sydd i'w weld yn Atodiad 2 yr adroddiad, fel rhan o'i ystyriaethau.***

## **6 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol a chytuno arni. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y pwyntiau canlynol:

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi cadarnhau'n ddiweddar y bydd cynrychiolwyr ar gael i fynychu cyfarfod y Pwyllgor i drafod 'Gwasanaethau Methiant y Galon yn Sir Ddinbych a'u heffaith ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor' ar 8 Gorffennaf 2021. Mae'r eitem hon wedi'i rhestru o dan adran 'Materion y Dyfodol' y rhaglen gwaith i'r dyfodol ers peth amser yn aros am gadarnhad eu bod ar gael i fynychu.

- Bu i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (y Grŵp) ystyried y cais i archwilio 'Datganiad Sefyllfa Cenhadaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol 2021-24' yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2021. Y Grŵp a'i cyfeiriodd at y Pwyllgor i graffu arno yn y cyfarfod hwn.
- Yn yr un cyfarfod, bu i'r Grŵp ystyried amserlen gyhoeddi adroddiadau Bwrdd Uchelgaais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd). Gan mai'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau oedd pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer craffu'r Bwrdd, roedd y Grŵp, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan bob un o chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd, yn argymhell y dylai'r Pwyllgor wahodd cynrychiolwyr y Bwrdd i gyfarfod â'r Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i drafod y cynnydd a wnaed o ran gwireddu ei amcanion. Y cynnig oedd y dylai cynrychiolwyr y Bwrdd fynychu'r Pwyllgor Craffu ar ddiwedd Chwarter 2 a 4 y flwyddyn ariannol i drafod eu Hadroddiadau Chwarterol a Blyneddol, gydag adroddiadau Chwarter 1 a Chwarter 3 yn cael eu hanfon i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth. Cytunodd y Pwyllgor i fabwysiadu'r drefn hon.
- Y ddogfen 'Briff Gwybodaeth' a ddosbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod, a oedd yn cynnwys yr adroddiad gwybodaeth chwarterol rheolaidd ar 'Fonitro Ansawdd Gwasanaethau Gofal Allanol', yn ogystal â gwybodaeth am yr hyn a ddisgwyliwyd gan y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â 'Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd Cymru'.

Cytunodd y Pwyllgor i estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr y Bwrdd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 20 Mai 2021, i gyflwyno Adroddiad Blyneddol y Bwrdd ar gyfer 2020/21. Cytunodd hefyd i gadarnhau trefniadau i gynrychiolwyr BIPBC fynychu'r un cyfarfod i drafod cynlluniau'r Bwrdd ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol yn Sir Ddinbych, gan gynnwys y cynnydd a wnaed o ran gwireddu prosiectau cyfalaf pwysig ar draws y sir.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

**Penderfynwyd: - cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor fel y'i nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn amodol ar gadarnhau derbyn yr ychwanegiadau a'r diwygiadau a amlinellir uchod.**

## **7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05am

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>20 Mai 2021</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	<b>Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd/Graham Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Graham Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus.</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020/21</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad am waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd) yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. I ystyried Chwarter 4/Adroddiad Blynyddol ar waith a chynnydd y Bwrdd yn ystod 2020-21

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod Aelodau yn ystyried cynnwys Chwarter 4/Adroddiad Blynyddol a darparu sylwadau ac adborth

## 4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Ar 8 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y Cyngor y Fargen Dwf Derfynol gyda Llywodraethau'r DU a Chymru a chytunwyd ar gytundeb llywodraethu (GA2) fel sail i lywodraethu gwaith y Bwrdd i ddarparu'r Weledigaeth Dwf a'r Fargen Dwf. Fel rhan o GA2, cytunwyd y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn paratoi

adroddiad chwarterol ar waith y Bwrdd a'i rannu gyda phob sefydliad partner er mwyn ei gyflwyno i Craffu.

4.2. Cytunwyd hefyd y byddai swyddog o'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gallu mynychu hyd at ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfod craffu perthnasol er mwyn ateb cwestiynau. Cytunwyd y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn anfon cynrychiolydd i Craffu i ystyried adroddiadau Chwarter 2 a Chwarter 4 a bod yr adroddiadau mewn perthynas â Chwarter 1 a Chwarter 3 yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth.

4.3. Bydd Chwarter 4/Adroddiad Blyneddol y Bwrdd yn dilyn yr adroddiad hwn a bydd ar gael i aelodau cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 20 Mai. Bydd swyddog o'r Swyddfa Rheoli Portffolio ynghyd â swyddogion perthnasol y Cyngor ar gael i ateb cwestiynau yn y cyfarfod.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae'r Fargen Dwf yn seiliedig ar themâu sydd yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn codi'n uniongyrchol o graffu'r adroddiad hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal gydag eraill.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Fel y nodwyd ar flaen yr adroddiad hwn, dyma adroddiad diweddar, er gwybodaeth yr aelodau, ac nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. Mae adrodd yn rheolaidd ar gynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru yn hanfodol i sicrhau cydymffurfiaid â dyfarniad y gofynion cyllido a GA2. Fel y nodwyd o dan 'Cyllid' yn

rhan 2 yr adroddiad chwarterol, mae CS Gwynedd wedi cadarnhau bod trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru o ran proffil grant ac amodau perthnasol, ar ôl i Lywodraeth y DU sbarduno eu trefniadau cyllido. Beth bynnag yw canlyniadau'r trafodaethau hyn, mae cyllideb ddigonol mewn lle ar gyfer cyfraniadau CSDd i gynorthwyo gyda sefyllfa llif arian fel y cytunwyd fel rhan o'r Gyllideb gan y Cyngor ym mis Ionawr.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chraffu'r adroddiad hwn.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. a21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag





---

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

14 Mai, 2021

---

**TEITL:** *Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiadau Chwarter 4 ac Blynyddol*

**AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio*

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ion-Mawrth) y Cynllun Twf, Cofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2020-21.
- 1.2. Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 4, Cofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2020-21.
- 2.2. Bod y Bwrdd yn ystyried ffurf yr adroddiad chwarterol ac yn adnabod gwelliannau neu lle byddai gwybodaeth bellach yn ddefnyddiol ar gyfer fersiynau'r dyfodol.
- 2.3. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2020-21 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghyd a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- 4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.
- 4.3. Mae tri atodiad i'r adroddiad hwn:
  - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Cynllun Twf Gogledd Cymru;
  - Cofrestr Risg y Portffolio - Ebrill 2021;
  - Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2021-21.

#### Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Cynllun Twf Gogledd Cymru

- 4.4. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 4 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.
- 4.5. Gyda'r Cynllun Twf wedi'i lofnodi, mae'r ffocws y chwarter hwn wedi bod ar symud i'r cam cyflawni. Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2021 gydag adolygiad gwaelodlin o'r holl brosiectau i ail-gadarnhau amserlenni ar gyfer datblygu a chyflawni achosion busnes. Unwaith y cwblhawyd yr ymarferiad hwn, roedd y ffocws ar fwrw ymlaen ag achosion busnes y prosiectau.
- 4.6. Yn ystod Chwarter 4, mae nifer sylweddol o weithdai wedi'u cynnal, yn unol â'r canllawiau *Better Business Case*, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y prosiectau. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys nifer o randdeiliaid a buont yn gyfle i ni ac arianwyr ein prosiectau i brofi, herio ac ail-gadarnhau cefnogaeth i'r prosiectau.
- 4.7. Mae Adolygiadau Porth yn rhan allweddol o'n proses sicrwydd a chymeradwyo, gan ddarparu pwynt gwirio annibynnol i benderfyniadau allweddol. Yn ystod Chwarter 4, gwelsom y ddau brosiect cyntaf yn ymgymryd â'r Adolygiadau Porth. Fe wnaeth prosiect Morlais, dan arweiniad Menter Môn a'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter, dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam, gwblhau eu hadolygiadau a bellach maent yn gweithio ar roi sylw i'r argymhellion a wnaed cyn cyflwyno'r achosion busnes diwygiedig i'w hystyried.
- 4.8. Wedi llofnodi'r Llythyr Dyfarnu Grant a chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol, fe wnaethom dderbyn y rhandaliad cyntaf o £16 miliwn gan y Llywodraethau ym mis Mawrth 2021. Bydd y cyllid yn galluogi i ni ddechrau cyflawni'r prosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan ddisgwyliwn ystyried a gwneud penderfyniad ar ein gwedd gyntaf o achosion busnes y prosiectau.
- 4.9. Mae'r rhan fwyaf o raglenni a phrosiectau yn adrodd fel Ambr o ganlyniad i amserlenni datblygu achosion busnes diwygiedig sy'n arwain at oedi o gymharu â'r amserlen a amlinellir yn yr Achos Busnes Portffolio. Mae dau brosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd oherwydd risgiau a allai effeithio ar gwmpas y prosiectau.

#### Cofrestr Risg y Portffolio - Ebrill 2021

- 4.10. Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddarau'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio (y Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.
- 4.11. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddarau'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio diwygiedig a chamau lliniaru ac mae'r sylwadau wedi'u diweddarau ar gyfer yr holl risgiau.
- 4.12. Mae proffil risg cyffredinol y Cynllun Twf yn sefydlog ac nid oes unrhyw feysydd arwyddocaol newydd o bryder. Mae rhai risgiau arwyddocaol yn parhau yng nghyd-destun ambell i brosiect unigol ac mae archwaeth a gallu'r sector preifat i fuddsoddi yn y Cynllun Twf wedi Covid-19 yn parhau'n aneglur ar hyn o bryd. Nid yw'n hysbys eto beth yw effeithiau tymor hwy Covid-19 ac adfer yr economi ar y Cynllun Twf, a byddwn yn parhau i adolygu hyn.

#### Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2021-21

- 4.13. Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'n cynnwys y Cynllun Twf a gweithgareddau eraill a gefnogir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

- 4.14. Roedd 2020-21 yn flwyddyn heriol, gyda Covid-19 yn newid ein bywydau a'r ffordd rydym yn gweithio. Er gwaethaf yr heriau hyn, llofnodwyd y cytundeb terfynol Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ystod seremoni rithiol ar 17 Rhagfyr, 2021.
- 4.15. Y Cynllun Twf Terfynol yw'r contract rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf. Fe'i sicrhawyd ar sail Achos Busnes y Portffolio a phum Achos Busnes Rhaglen a oedd yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer buddsoddiad o gyfanswm o £240m (£120m gan Lywodraeth y DU a £120m gan Llywodraeth Cymru).
- 4.16 Yn ogystal â chyflawni'r Cynllun Terfynol, cyflawnwyd nifer o gerrig milltir arwyddocaol eraill, gan gynnwys:
- Sicrhau £2.9 miliwn mewn cyllid ESF i ehangu'r Swyddfa Rheoli Portffolio;
  - Recriwtio i'r strwythur staffio newydd gyda dim ond 2 swydd wag ar ôl ym mis Ebrill 2021;
  - Cwblhau Adolygiad Asesiad Portffolio ac Adolygiadau Porth y prosiect cyntaf;
  - Cwblhau hyfforddiant *Better Business Case* ar gyfer aelodau'r tîm;
  - Gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynw'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.
- 5.2. Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn darparu trosolwg o broffil gwariant cyfalaf disgwyledig cyllid y Cynllun Twf. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw achosion busnes prosiectau wedi'u cymeradwyo felly nid oes gwariant i adrodd arno. Yn y dyfodol, bydd fersiynau o'r adroddiad hwn yn cynnwys adrodd ar wariant ariannol yn dilyn cymeradwyo achos busnes y prosiectau.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.
- 6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

### ATODIADAU:

<b>Atodiad 1</b>	Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4
<b>Atodiad 2</b>	Cofrestr Risg y Portffolio - Ebrill 2021
<b>Atodiad 3</b>	Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2021-21

---

### YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

#### i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

"Fel y nodi'r yn yr adroddiad mae ymrwymiad yng nghytundeb GA2 i ddarparu adroddiad chwarterol ar gyfer trefniadau craffu y Partneriaid. Mae'r hyn a argymhellir yn cyfarch y gofyn yma ac yn rhoi cyfle i'r gyfundrefn craffu gael ei ddiweddarw ac ystyried y wybodaeth wrth ffurfio rhaglenni gwaith."



**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Mae hwn yn adroddiad diweddar, er gwybodaeth i’r aelodau, ac mae paragraff 5.1 yn nodi nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol yn codi. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn allweddol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion y llythyr dyfarnu cyllid a ‘GA2’. Gallaf gadarnhau bod trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru am broffil y grant ac amodau cysylltiedig, ar ôl i Lywodraeth y DU gyflymu’r drefn cyllido, fel nodir o dan ‘Cyllid’ yn rhan 2 o’r adroddiad chwarterol.”

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru  
North Wales Economic Ambition Board

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

2020-21 Chwarter 4  
(Ionawr – Mawrth 2021)  
Adroddiad Perfformiad

Tudalen 23



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



UK Government Wales  
Llywodraeth y DU Cymru



1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio.....	3
2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio.....	4
3. Rhaglen Digidol.....	5
4. Rhaglen Ynni Carbon Isel.....	7
5. Rhaglen Tir ac Eiddo.....	9
6. Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth.....	11
7. Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel.....	12
8. Prosiectau'r Cynllun Twf sydd ar y Gweill - Mawrth 2021.....	13
9. Prosiectau'r Cynllun Twf - Proffil Cyllid Cyfalaf Mawrth 2021.....	14
10. Atodiad A - Crynodeb o'r Prosiectau.....	15



## 1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio

Roedd y **weithred o lofnodi'r Cynllun Twf Terfynol ym mis Rhagfyr 2020** gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ar ddiwedd blwyddyn heriol iawn i economi'r Gogledd o ganlyniad i Covid-19.

Gyda'r Cynllun Twf wedi'i lofnodi, mae'r ffocws y chwarter hwn wedi bod ar **symud i'r cam cyflawni**. Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2021 gydag adolygiad gwaelodlin o'r holl brosiectau i ail-gadarnhau amserlenni ar gyfer datblygu a chyflawni achosion busnes. Unwaith y cwblhawyd yr ymarferiad hwn, roedd y ffocws ar fwrw ymlaen ag achosion busnes y prosiectau.

Dros y tri mis diwethaf, mae **nifer sylweddol o weithdai wedi'u cynnal, yn unol â'r canllawiau Better Business Case**, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y prosiectau. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys nifer o randdeiliaid a buont yn gyfle i ni ac arianwyr ein prosiectau i brofi, herio ac ail-gadarnhau cefnogaeth i'r prosiectau.

Mae **Adolygiadau Porth** yn rhan allweddol o'n proses sicrwydd a chymeradwyo, gan ddarparu pwynt gwirio annibynnol i benderfyniadau allweddol. Fe wnaeth portffolio'r Cynllun Twf ymgymryd â'i Adolygiad Porth yn ystod mis Awst 2020 fel rhan o'r broses i sicrhau'r Cynllun Twf Terfynol, ac yn ystod y chwarter hwn rydym wedi gweld ein dau brosiect cyntaf yn ymgymryd â'u Hadolygiadau Porth.

Fe wnaeth prosiect Morlais, dan arweiniad Menter Môn a'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter, dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam, gwblhau eu hadolygiadau a bellach maent yn gweithio ar roi sylw i'r argymhellion a wnaed cyn cyflwyno'r achosion busnes diwygiedig i'w hystyried.

Law yn llaw â bwrw ymlaen ag achosion busnes y prosiectau, mae'r **Swyddfa Rheoli Portffolio wedi parhau i osod y sylfeini ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf** yn llwyddiannus drwy fireinio a chytuno ar y strategaeth fasnachol, egwyddorion caffael a chytuno ar ddatganiad sefyllfa ar newid hinsawdd ac ecolegol i'n galluogi ni i weithio gydag arianwyr prosiectau i gyflawni uchelgais y Bwrdd ar gyfer y rhanbarth.

Yn olaf, wedi llofnodi'r Llythyr Dyfarnu Grant a chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol, fe wnaethom **dderbyn y rhandaliad cyntaf o £16 miliwn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU** ym mis Mawrth 2021. Bydd y cyllid yn galluogi i ni ddechrau cyflawni'r prosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan ddisgwyliwn ystyried a gwneud penderfyniad ar ein gwedd gyntaf o achosion busnes y prosiectau.

*Alwen Williams*  
Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio



## 2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio

Themâu	RAG	Sylwadau
<b>Achos Busnes y Portffolio</b>		Cymeradwywyd Achos Busnes y Portffolio fel rhan o'r Cytundeb Twf Terfynol ym mis Rhagfyr 2020. Caiff yr achos busnes ei ddiweddarau'n flynyddol, gyda'r diweddariad cyntaf wedi'i amserlennu ym mis Awst 2021.
<b>Llywodraethu</b>		Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn weithredol. Cymeradwywyd Cytundeb Llywodraethu 2 gan yr holl bartneriaid ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r broses Gwrthdaro Buddiannau bellach yn cael ei gweithredu, gan ddechrau gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes.
<b>Sicrwydd</b>		Mae'r broses sicrwydd rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda. Mae Morlais, prosiect cyntaf y Cynllun Twf, wedi cwblhau ei Adolygiad Porth ac mae'n gweithio i roi sylw i'r argymhellion. Mae'r ddau brosiect nesaf, Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon a'r Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter ar y trywydd cywir ar gyfer eu Hadolygiadau Porth ym mis Ebrill a mis Mai yn y drefn honno.
<b>Adnoddau</b>		Mae recriwtio i'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn parhau, gyda phum unigolyn newydd yn ymuno â'r tîm rhwng Ebrill a Mai 2021. Mae dwy swydd yn dal heb eu llenwi - Swyddog Arweiniol (Trafnidiaeth Strategol) a'r Rheolwr Prosiect Tir ac Eiddo ac mae opsiynau ar gyfer ail-hysbysebu yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.
<b>Gyllid</b>		Mae'r Llythyr Cynnig Grant wedi'i dderbyn a'i lofnodi a derbyniwyd y wedd gyntaf o gyllid (£16 miliwn) ym mis Mawrth 2021. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddeall goblygiadau'r cyhoeddiad gan Drysorlys Llywodraeth y DU eu bod yn cyflymu'r cyllid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.
<b>Risg</b>		Mae proffil risg cyffredinol y Cynllun Twf yn sefydlog ac nid oes unrhyw feysydd arwyddocaol newydd o bryder. Mae rhai risgiau arwyddocaol yn parhau yng nghyd-destun ambell i brosiect unigol ac mae archwaeth a gallu'r sector preifat i fuddsoddi yn y Cynllun Twf wedi Covid-19 yn parhau'n aneglur ar hyn o bryd.
<b>Monitro a Gwerthuso</b>		Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddrafft diwygiedig o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso ac mae'n disgwyl adborth. Disgwylir i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso gael ei fireinio dros y flwyddyn nesaf wrth i'r ymagwedd i Wireddu Buddion aeddfedu.
<b>Cyfathrebu ac Ymgysylltu</b>		Mae gwaith wedi dechrau ar y wefan a'r brand newydd gydag asiantaeth digidol creadigol o'r enw Tinint; fodd bynnag, mae'r gwaith ychydig ar ei hôl hi. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi dechrau ar bartneriaeth 12 mis gyda Business News Wales i ddarparu cefnogaeth cyfathrebu a marchnata ychwanegol. Yn ogystal, bydd dau gytundeb nawdd bychan gyda Wythnos Cymru yn Llundain a Wales Start-up Awards 2021 a fydd yn help i ddenu buddsoddiad yn y Cynllun Twf a'r Bwrdd Uchelgais a chodi eu proffil.

- Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
- Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

### 3. Rhaglen Digidol

Statws y Rhaglen	Sylwadau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r bwrdd rhaglen wedi blaenoriaethu tri phrosiect i'w datblygu yn ystod 2021 - Canolfan Prosesu Signal Digidol, Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf a Choridor Cysylltiedig.</li> <li>Mae'r prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r OBC. Mae'r prosiect Ychydig Ganrannau Olaf wedi sefydlu bwrdd prosiect ac wedi penodi Uwch Swyddog Cyfrifol ac mae wedi cytuno ar gyfres o amcanion gwario SMART. Mae'r prosiect Coridorau Cysylltiedig wedi sefydlu bwrdd prosiect ac wedi penodi Uwch Swyddog Cyfrifol. Caiff astudiaeth sgopio ei chomisiynu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achos busnes y prosiect.</li> <li>Mae gwaith wedi dechrau ar ddiweddaru'r Strategaeth Cysylltedd Digidol rhanbarthol, a adolygwyd ddiwethaf yn 2019 a chynllunnir i ddrafft gael ei gyflwyno am gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais yn y chwarter nesaf.</li> </ul>

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn	Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf	RAG
<b>Canolfan Prosesu Signal Digidol</b> (Prifysgol Bangor)	Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithdai achosion Strategol, Economaidd a Masnachol wedi'u cwblhau.</li> <li>Drafftiau cyntaf yr achosion Strategol ac Economaidd wedi'u cwblhau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad sicrwydd wedi'i drefnu ar 12 Mai.</li> <li>OBC drafft i fod yn barod ym mis Ebrill</li> <li>Y Bwrdd Uchelgais yn cymeradwyo'r OBC</li> </ul>	
<b>Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu a'r Uwch Swyddog Cyfrifol wedi'i benodi</li> <li>Gweithdai achos strategol wedi'u cwblhau ac amcanion gwario wedi'u diffinio</li> <li>Ymgysylltu â'r farchnad gyda'r bwrdd prosiect yn cwrdd â chyflenwyr posib mewn cyfres o gyflwyniadau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithdai achos economaidd i'w cynnal a'r OBC i'w ddrafftio</li> <li>Adolygu aelodaeth y Bwrdd Prosiect</li> <li>Adolygiad sicrwydd i'w drefnu</li> </ul>	

- Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu  
■ Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle  
■ Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

### 3. Rhaglen Digidol

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn	Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf	RAG
<b>Coridor Cysylltiedig</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu a'r Uwch Swyddog Cyfrifol wedi'i benodi</li> <li>Gweithdai achos strategol cychwynnol wedi'u cynnal</li> <li>Bwrdd Prosiect wedi adnabod yr angen am astudiaeth sgopio i wella'r achos strategol</li> <li>Briff ar gyfer yr astudiaeth sgopio wedi'i ddrafftio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Astudiaeth sgopio i'w chyflawni</li> <li>Gweithdai sy'n weddill i'w cynnal a'r OBC i'w ddrafftio</li> <li>Adolygu aelodaeth y Bwrdd Prosiect</li> <li>Adolygiad sicrwydd i'w drefnu</li> </ul>	
<b>Libr Llawn mewn Afleoedd Allweddol</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Wedi'i atal	<ul style="list-style-type: none"> <li>N/A</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllunnir datblygu achos busnes y prosiect yn ddiweddarach yn 2021</li> </ul>	
<b>Campws Cysylltiedig</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Wedi'i atal	<ul style="list-style-type: none"> <li>N/A</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllunnir datblygu achos busnes y prosiect yn ddiweddarach yn 2021</li> </ul>	

- Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
- Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

## 4. Rhaglen Ynni Carbon Isel

Statws y Rhaglen	Sylwadau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Derbyniwyd drafft cyntaf OBC Morlais gan y PMO i'w adolygu a chwblhawyd adolygiad porth ar y prosiect ym mis Chwefror 2021. Mae gwaith ar y gweill bellach gan Menter Môn i roi sylw i'r argymhellion a datblygu drafft nesaf yr OBC i'w ystyried.</li> <li>Mae cynnydd da wedi'i wneud ar y Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth, gyda gwaith yn bwrw ymlaen ar Hybiau Hydrogen Glannau Dyfrdwy a Chaergybi. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi bod yn llwyddiannus yn caffael Jacobs i gyflawni'r SOC a'r OBC ar gyfer hwb Glannau Dyfrdwy ac mae'r Rheolwr Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth wedi'i recriwtio i arwain ar y prosiect, a bydd yn cychwyn yn ei swydd ym mis Ebrill. Mae cynnydd cadarnhaol tebyg wedi'i wneud ar y prosiect Ynni Lleol Blaengar gyda dau weithdy achos strategol wedi'u cynnal, amcanion gwario SMART wedi'u datblygu ac Aquaterra wedi'u caffael i gyflawni astudiaeth Amlffynhonnell Llŷn.</li> <li>Mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel ac mae cynlluniau yn eu lle i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol dros y chwarter nesaf.</li> <li>Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol Ddrafft yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021.</li> </ul>

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn	Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf	RAG
<b>Morlais</b> (Menter Môn)	Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwynwyd OBC drafft i'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn dilyn y gweithdai achos busnes</li> <li>Cynhaliwyd Adolygiad Porth i adolygu pa mor barod yw i gael ei gyflawni a'r OBC drafft</li> <li>Ymchwiliad Cyhoeddus wedi'i gynnal ar gyfer y prif gais cynllunio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi prif gontractwyr</li> <li>Cwblhau'r broses o ailddosbarthu angorfeydd</li> <li>Y Bwrdd Uchelgais i ystyried yr OBC</li> </ul>	
<b>Datgarboneiddio Trafnidiaeth</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu SOC ac OBC</li> <li>Jacobs wedi'u caffael i gefnogi'r gwaith o Ddatblygu SOC ac OBC ar gyfer Hwb Hydrogen Glannau Dyfrdwy</li> <li>Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Project Manager to start in post</li> <li>SOC and OBC reports to be received</li> </ul>	

- Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu  
■ Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle  
■ Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen



Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn	Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf	RAG
<b>Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel</b> (Prifysgol Bangor)	Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu</li> <li>Cyfes o weithdai mewnol i adolygu'r achos strategol a datblygu'r cynnig</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithdai Achos Busnes i'w cynnal</li> <li>Parhau i ddatblygu OBC drafft</li> </ul>	
<b>Ynni Lleol Blaengar</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithdai 'Achos dros Newid' wedi'u cynnal i adnabod amcanion gwario, anghenion busnes a sgôp posib y prosiect</li> <li>Mae astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer system ynni amlffynhonnell YnNi Llŷn wedi'i dyfarnu i Aquaterra - sydd wedi ymgymryd â gwaith tebyg yn Ynysoedd Erch</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrw ymlaen â'r gweithdai datblygu'r Achos Busnes</li> <li>Parhau i ddatblygu'r OBC drafft</li> <li>Ar fin derbyn adroddiad YnNi Llŷn</li> </ul>	
<b>Gorsaf Bŵer Trawsfynydd</b> (Cwmni Egino)	Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu Cwmni Egino, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2020</li> <li>Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Arup i asesu effaith economaidd Adweithydd Modwlar Bach neu Uwch yn Nhrawsfynydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgysylltu â Chwmni Egino, y Llywodraeth a phartneriaid allweddol ynghylch cynlluniau i ddatblygu'r prosiect</li> </ul>	

■ Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu  
■ Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle  
■ Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

## 5. Rhaglen Tir ac Eiddo

Statws y Rhaglen	Sylwadau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ar gyfer prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych dan arweiniad y datblygwr Jones Bros sy'n bwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes.</li> <li>Mae datblygwr posib wedi mynegi diddordeb yn safle Parc Bryn Cegin, Bangor.</li> <li>Mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan wedi darfod a bydd angen adolygu'r prosiect unwaith y bydd y polisi cynllunio diwygiedig ar gyfer y safle wedi'i bennu.</li> <li>Mae Warren Hall, Brychdyn yn parhau ar y trywydd cywir ac yn amodol ar fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.</li> <li>Mae nifer o ddibyniaethau a chyfyngiadau a fydd yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer safle Porth Wreccsam.</li> <li>Mae risg ariannu yn parhau mewn perthynas â phrosiect Porthladd Caergybi yn sgil costau cynyddol.</li> </ul>

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn	Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf	RAG
<b>Porth y Gorllewin, Wreccsam</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwydddeb cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wrthod caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain ar gynnydd mewn llif traffig ar Gyffordd 4 yr A483</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes</li> </ul>	
<b>Warren Hall, Brychdyn</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datganiad Tir Cyffredin wedi'i gwblhau gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'r Bwrdd Uchelgais i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol drafft</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Negodi Cytundeb Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru</li> </ul>	
<b>Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Mae sgôp y prosiect yn cael ei adolygu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle wedi darfod ar 21 Mawrth, 2021</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd angen adolygu'r prosiect unwaith y bydd y polisi cynllunio diwygiedig ar gyfer y safle wedi'i bennu.</li> </ul>	

- Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu  
■ Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle  
■ Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn	Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf	RAG
<b>Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu</li> <li>Cais cynllunio wedi'i gyflwyno gan Jones Bros i Gyngor Sir Ddinbych</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Disgwylir penderfyniad ar y cais cynllunio ym mis Ebrill/Mai 2021</li> <li>Bwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes</li> </ul>	
<b>Parc Bryn Cegin, Bangor</b> (Y Bwrdd Uchelgais)	Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae datblygwr posib gyda hanes o gyflawn wedi mynegi diddordeb yn y safle</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrw ymlaen â thrafodaethau gyda'r datblygwr posib</li> <li>Bwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes</li> </ul>	
<b>Porth Caergybi</b> (Ariannwr y Prosiect)	Mae sgôp y prosiect yn cael ei adolygu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Llywio i ddarparu cyfarwyddyd ar gyflawni'r gweithgareddau sy'n disgyn o fewn Porth Caergybi</li> <li>Mae costau diwygiedig y prosiect yn dangos y byddant o fewn amrediad sy'n sylweddol uwch na'r amcangyfrifon gwreiddiol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Proses caniatâd ar gyfer y gwaith ar y Forglawdd i ddechrau.</li> </ul>	

■ Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu  
■ Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle  
■ Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen



## 6. Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

Statws y Rhaglen	Sylwadau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r amserlen ar gyfer datblygu achosion busnes yn parhau'n dynn.</li> <li>Mae'r prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon yn parhau ar y trywydd cywir gyda'r holl weithdai wedi'u cwblhau.</li> <li>Mae'r amserlen ar gyfer gweithdai Fferm Sero Net Llysfasi wedi'i hadolygu i gyd-fynd â'r rheolwr prosiect newydd yn dechrau yn ei swydd, fodd bynnag, mae'r gystadleuaeth arloesedd busnes WBRID gyda Choleg Cambria Llysfasi wedi darparu sail gadarn ar gyfer y prosiect.</li> <li>Mae cynnydd yn cael ei wneud ar elfen Hwb y Rhwydwaith Talent Twristiaeth.</li> </ul>

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn	Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf	RAG
<b>Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon</b> (Grŵp Llandrillo Menai)	Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hatch Regeneris wedi'u penodi i gefnogi gweithdai</li> <li>Mae gweithdai ar gyfer pob un o'r pum prosiect wedi'u cwblhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu OBC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwynwyd OBC drafft i'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'w adolygu</li> <li>Cynnal yr adolygiad Porth 2</li> </ul>	
<b>Fferm Sero Net Llysfasi</b> (Coleg Cambria)	Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymchwil a chynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau ffermio manwl gywir a charbon isel</li> <li>Ymgysylltu gyda busnesau lleol i bennu anghenion sgiliau</li> <li>Rheolwr Prosiect wedi'i benodi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolwr Prosiect i ddechrau yn y swydd</li> <li>Gweithdai Achos Busnes i ddechrau</li> <li>Cynllunio ar gyfer adolygiad Porth 2</li> </ul>	
<b>Rhwydwaith Talent Twristiaeth</b> (Grŵp Llandrillo Menai)	Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r elfen Hwb yn parhau i gael ei gynllunio wrth baratoi ar gyfer y cais Ysgolion 21ain Ganrif (i gyd-fynd ag amserlen y Cynllun Twf)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Amserlen y gweithdai yn cael ei drafftio gyda'r gweithdy cyntaf wedi'i drefnu ym mis Mai 2021</li> <li>Adolygiad yn ymwneud â COVID o'r elfen 'adain' gyda'r bwriad o ehangu partneriaid</li> </ul>	

- Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu  
■ Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle  
■ Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen


## 7. Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

Statws y Rhaglen	Sylwadau
